# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD Y CABINET DROS FATERION GWLEDIG A PHOLISI CYNLLUNIO

## 15 GORFFENNAF 2022

**PRESENNOL** Cynghorydd: C.A. Davies (Aelod Cabinet)

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod**
R. Phillips, Rheolwr Ardal Datblygu Economaidd;
A.J. Rees, Swyddog Biwro;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Swyddfa Aelod Cabinet, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP: 10:00yb - 10:20yb**

### 1. DATGANIADAU O FUDDIANT

Nid oedd datganiadau o fuddiant.

### 2. GRANT CYMORTH RHANDIROEDD LLYWODRAETH CYMRU

Cafodd yr Aelod Cabinet adroddiad ar Gronfa Cymorth Rhandiroedd 2022/23 Llywodraeth Cymru. Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am y gronfa ac yn cynnwys cynllun gwaith a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth ôl-weithredol yr Aelod Cabinet.

Adroddwyd bod Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cael swm dangosol o £39,601 gan Lywodraeth Cymru drwy'r Grant Cymorth Rhandiroedd er mwyn cynyddu argaeledd lleiniau rhandiroedd o ansawdd da ledled Sir Gaerfyrddin. Roedd y cyllid yn ymwneud â gweithgarwch o fewn blwyddyn ariannol 2022/23 a byddai'r gronfa'n cael ei defnyddio mewn amrywiaeth o ffyrdd i helpu i hybu gallu'r sefydliadau fel y nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd yr Aelod Cabinet y Cynllun Gwaith a atodwyd i'r adroddiad yn Atodiad A a oedd yn cynnwys manylion 14 o brosiectau a oedd wedi'u derbyn a'u hasesu gan dîm y Biwro. Esboniwyd bod y Cynllun Gwaith eisoes wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo cyn y dyddiad cau, sef 10 Mehefin, 2022, ac felly ceisid cymeradwyaeth ôl-weithredol yr Aelod Cabinet.

Dywedwyd, fel y nodwyd yn yr adroddiad, fod y gronfa ac unrhyw amrywiadau i'r cyllid yn cael eu gweinyddu gan dîm Biwro'r Awdurdod.

**PENDERFYNWYD bod y ceisiadau a gyflwynwyd i'w hystyried fel rhan o Gronfa Cymorth Rhandiroedd Llywodraeth Cymru 2022/23 yn cael eu cymeradwyo'n ôl-weithredol.**

________________________ ________________
**CHAIR** **DATE**

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council